

Templed: Datganiad Ysgol Godre'r Berwyn Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Godre'r Berwyn
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	544
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	10%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	21ain o Fedi 2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	Medi 2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Cyngor Sir Gwynedd
Yn arwain ar y GDD	Bethan Emyr
Llywodraethwr sy'n arwain	Eifion Roberts

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£51,750
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academiaidd hon	£51,750

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Ein nod pennaf yn Ysgol Godre'r Berwyn yw hybu cymhelliant a datblygiad pob dysgwr fel dysgwr annibynnol, uchelgeisiol, creadigol a hyderus.

Mae ein strategaeth bresennol yn canolbwyntio ar sicrhau tegwch a chynhwysiant i bob dysgwr, gan ddarparu'r gefnogaeth, yr arweiniad a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i llwyddo, waeth beth fo'u hamgylchiadau personol neu economaidd-gymdeithasol. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar egwyddorion atal, ymyrraeth gynnwys, llesiant, presenoldeb da a chodi safonau, gyda ffocws penodol ar ddileu rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad.

Trwy ddefnyddio data, tystiolaeth ac adborth yn effeithiol, rydym yn adnabod anghenion unigol dysgwyr ac yn targedu cymorth lle mae'r angen mwyaf. Mae cydweithio agos rhwng staff, rhieni, gofalmwyr ac asiantaethau allanol yn rhan annatod o'n dull gweithredu er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl ar ddeilliannau dysgwyr.

Bydd y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei lawn botensial gan geisio lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, presenoldeb, llesiant a chyfleoedd bywyd ein dysgwyr. Drwy weithredu ymyrraethau wedi'u targedu a darparu cymorth addysgol, emosiynol a bugeiliol priodol, ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal i ffynnu a llwyddo.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Gwella cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion	- Mwyafrif y dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer y GDD yn gwneud cynnydd disgwylledig neu well mewn llythrennedd, rhifedd a meysydd perthnasol eraill. - Data tracio yn dangos cynnydd gan ddysgwyr sy'n derbyn ymyrraethau targedig.
Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys am y grant a'u cyfoedion.	- Bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr GDD a'u cyfoedion yn lleihau dros amser. - Dysgwyr GDD yn cyrraedd eu targedau unigol.
Gwella presenoldeb a lleihau absenoldebau parhaus.	Cyfraddau presenoldeb dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer y GDD yn gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

	Nifer yr achosion o absenoldeb parhaus ymhlith dysgwyr GDD yn lleihau.
Cryfhau llesiant emosiynol a chymdeithasol dysgwyr.	- Dysgwyr sy'n derbyn cefnogaeth llesiant yn dangos gwelliant yn eu lles emosiynol a'u gwydnwch. - Pontio rhwng y sector cynradd ac uwchradd yn llwyddiannus i'r rhan fwyaf o ddysgwyr PDG.
Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol a manteisio ar brofiadau dysgu ehangach. Cryfhau llesiant emosiynol a chymdeithasol dysgwyr.	- Cyfran uwch o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi, ymweliadau addysgol a chyfleoedd allgyrsiol. - Rhieni a gofalwyr yn adrodd bod eu plant yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy cadarnhaol am yr ysgol.
Datblygu gwydnwch, hyder ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.	- Data llesiant, arsylwadau staff ac adborth gan ddysgwyr yn dangos gwelliant mewn hyder, ymgysylltiad a gwydnwch. - Gwerthusiadau'r ysgol yn dangos bod ymyriadau a ariannir gan y GDD yn cael effaith gadarnhaol a mesuradwy ar ddeilliannau dysgwyr.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Bydd Ysgol Godre'r Berwyn yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i ariannu ystod o ymyriadau a chymorth wedi'u targedu er mwyn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, presenoldeb a llesiant dysgwyr.

Bydd y grant yn cyfrannu at:

- Darparu cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr sydd angen ymyrraeth neu gefnogaeth wedi'i thargedu.
- Cefnogi llesiant emosiynol, iechyd meddwl a gwydnwch dysgwyr drwy ddarparu mentora, ymyriadau bugeiliol a chymorth arbenigol lle bo angen.
- Sicrhau mynediad cyfartal at weithgareddau addysgol, ymweliadau, profiadau cyfoethogi a chyfleoedd allgyrsiol.
- Cefnogi presenoldeb a chynnwys teuluoedd mewn dysgu er mwyn lleihau rhwystrau i fynychu a chyfranogi.

- Darparu adnoddau, offer a deunyddiau dysgu i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu anfantais economaidd.
- Datblygu gallu staff i gefnogi dysgwyr sy'n profi effaith tlodi drwy hyfforddiant, ymchwil a rhannu arferion effeithiol.
- Cefnogi dysgwyr wrth bontio rhwng cyfnodau addysg allweddol a pharatoi ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Bydd yr holl wariant yn cael ei gynllunio a'i werthuso yn erbyn anghenion penodol ein dysgwyr, gan ddefnyddio data, tystiolaeth ac adborth i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar ddeilliannau, llesiant a chyfleoedd bywyd.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £27,800

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Darparu ymyriadau wedi'u targedu mewn llythrennedd, rhifedd a medrau dysgu.	Drwy ddadansoddi data presenoldeb, lles, ymddygiad. a chynnydd, gwelir bod disgyblion PYD yn wynebu mwy o rwysrau i ddysgu na'u cyfoedion. O ganlyniad rydym yn ariannu dwy gymhorthydd Lefel 4 i staffio Hwb a Celyn, a hyn i gynnig ymyrraeth benodol i grwpiau ac unigolion.
Datblygu dulliau addysgu cynhwysol sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gwneud cynnydd.	Cymorthyddion i ddefnyddio rhaglenni ymyrraeth strwythuredig gyda'r grwpiau targed. Bydd data presenoldeb, lles ac ymddygiad yn ogystal a data tracio yn cael ei ddefnyddio i fesur effaith.
Cynorthwyo staff i ddatblygu eu harferion drwy hyfforddiant ac ymchwil i strategaethau effeithiol ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n wynebu anfantais.	Defnuddio staff cymorth i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac academaidd dysgwyr difreintiedig.

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £5,000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
--------------	-------------------------------------

Cryfhau partneriaethau rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Cefnogi teuluoedd i oresgyn rhwystrau sy'n effeithio ar ddysgu, presenoldeb a llesiant.	Cofnodion Swyddog Presenoldeb a Chyswllt Teuluoedd. Data presenoldeb.
Cymorth i gael gwersi offerynnol gan wasanaeth cerdd Gwynedd.	Cofnodion presenoldeb ac adroddiadau gwersi cerdd.
Hyrwyddo mynediad ar gyfer ymweliadau addysgol a gweithgareddau cymunedol.	Cofnodion presenoldeb. Cofnodion Swyddog Ieuencid.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £18,950

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Darparu cymorth bugeiliol ac emosiynol ychwanegol i ddysgwyr a'u teuluoedd. Datblygu strategaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol dysgwyr.	Cofnodion sesiynau Talkabout, Drawing and Talking ac ELSA Cofnodion Presenoldeb Cofnodion Llais y Dysgwr
Hybu presenoldeb, gwydnwch, hyder a hunan-barch dysgwyr.	Data Presenoldeb Cofnodion Llais y Dysgwr
Sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at holl brofiadau'r cwricwlwm.	Adroddiadau unigol Adborth gan staff Data tracio

Datblygu medrau, gwybodaeth a phrofiadau sy'n galluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.	Adroddiadau unigol Adborth gan staff Data tracio
--	--

Cyfanswm cost y ceisiadau: £51,750

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2025 i 2026.

Effaith
Yn ystod 2025-26, defnyddiwyd y Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ym meysydd dysgu ac addysgu, iechyd a lles, datblygu'r cwricwlwm ac ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Cyfrannodd y cyllid at wella mynediad at gymorth wedi'i dargedu, cryfhau llesiant a gwydnwch dysgwyr, a sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyfoethogi a gweithgareddau'r ysgol. Gwelwyd gwell ymgysylltiad â dysgu a chynnydd cadarnhaol ymhlith llawer o'r dysgwyr a gefnogwyd.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
TT Rock Stars	Maths Circle
White Rose Maths	

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

--